



Ydych chi erioed wedi cael eich temtio i brynu cerbyd mewn arwerthiant?

Ydych chi'n credu y cewch chi fargen?

- Mae arwerthiannau cerbydau modur yn denu nifer cynyddol o unigolion preifat sy'n dymuno dod o hyd i gerbyd addas am bris rhatach o gymharu â ffynonellau traddodiadol. Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i Wythnos Genedlaethol y Defnyddwyr, hoffwn gynnig 10 darn o gyngor i chi wrth brynu car o arwerthiant.
- Os nad ydych wedi mynychu arwerthiant o'r blaen, ymwelwch â'r lleoliad o flaen llaw er mwyn dod i arfer â'r amgylchedd.
- Ymchwiliwch i'r hyn rydych eisiau ei brynu, gan gynnwys amcan o'r gwerth.
- Darllenwch Delerau ac Amodau'r Arwerthiant.
- Archwiliwch unrhyw gerbyd y mae gennych ddi-ddordeb ynddo cyn gwneud cynnig amdano. Os yw'n bosibl, gofynnwch am gael clywed yr injan yn tanio a rhedeg cyn i'r car fynd i mewn i'r cylch gwerthu. Ewch â rhywun yn gwmni i chi - mecanydd yn ddefnyddol!
- Gwiriwch nifer y perchnogion blaenorol. Cofiwch ei bod hi'n bosibl bod cerbydau wedi cael eu pasio o un gwerthwr i'r llall heb gael eu cofrestru gyda'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrrwyr a Cherbydau (DVLA).

- Os yw'n bosibl, ceisiwch brynu cyn-gerbyd fflyd neu gar hurio. Fel arfer, bydd y ceir hyn wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd gan y cwmnïau mawr.
- Gwiriwch os yw'r milltiroedd o dan warant ai peidio. Os nad ydych yn siŵr, gofynnwch i'r arwerthiant os ydynt wedi cynnal gwiriad o hanes milltiroedd MOT VOSA ar y cerbyd o leiaf, a gofynnwch i'w weld.
- Os oes gennych chi unrhyw amheuon ynghylch y milltiroedd, chwiliwch am yr arwyddion amlycaf o orddefnydd. Mae carpedi a phedalau troed treuliedig yn awgrymu bod cerbyd wedi teithio mwy o filltiroedd na'r hyn sydd wedi'i nodi ar yr odomedr.
- Peidiwch â mynd y tu hwnt i uchafswm eich cyllideb. Mae'n hawdd iawn i unigolyn amhrofiadol ymgolli yng nghyffro'r arwerthiant a chofiwch hefyd y bydd yn rhaid i chi dalu comisiwn i'r arwerthiant ar ben eich cynnig buddugol!
- Peidiwch â phrynu cerbyd o du allan i'r arwerthiant. Er y cyfyngir ar hawliau'r prynwr mewn arwerthiant, mae'n bosibl y bydd gennych fwy o amddiffyniad o gymharu â phrynu yn breifat y tu allan i'r safle. Fel arfer, caiff hawliau sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Gwerthu Nwyddau eu heithrio mewn arwerthiant. Oni bai bod telerau ac amodau'r arwerthiant yn nodi fel arall, rydych yn prynu eitemau 'gwerthu fel y gwelwch' mewn amgylchiadau o'r fath. Felly, os prynwch gerbyd diffygiol neu wedi'i gam-ddisgrifio (gan gynnwys nifer anghywir o filltiroedd), ni fyddwch yn gallu gwneud dim byd am hynny ac ni fydd gan yr arwerthiant unrhyw ofyniad cyfreithiol i ddatgelu hunaniaeth y gwerthwr. Mae rhai arwerthiannau'n cynnig cyfnod ailfeddwl byr iawn. Unwaith eto, dylai hynny gael ei nodi yn amodau a thelerau'r arwerthiant.

Prynu teiars wedi'u treulio'n rhannol

Yn ystod y cyfnod economaidd presennol, mae gwerthiant teiars sydd wedi'u treulio'n rhannol wedi cynyddu. Y teiars yw'r unig ran o'ch cerbyd sy'n cyffwrdd ag arwyneb y ffordd ac sydd felly'n effeithio ar sefydlogrwydd y cerbyd, y ffordd mae'r cerbyd yn troi corneli a phellteroedd brecio. Mae eu cyflwr yn hollbwysig o ran eich diogelwch chi a diogelwch eich teulu.

Arbedion Gwag?

Ar gyfartaledd, cost teiar wedi'i dreulio'n rhannol yw £25, ac mae ganddo 4mm o wadn (ar y gorau) yn weddill; cost teiar rhad newydd, ar gyfartaledd, yw £50 gydag 8mm o wadn. Felly, gwir gost teiar wedi'i dreulio'n rhannol yw £10.42 i bob milimedr o wadn, yn hytrach na £7.81 ar gyfer teiar rhad newydd (gan gymryd bod y teiars yn cael eu newid ar y terfyn cyfreithiol, sef 1.6mm).

Ein cyngor...

Ystyriwch brynu teiars rhad newydd yn hytrach na theiars sydd wedi treulio'n rhannol. fodd bynnag, os penderfynwch brynu teiars sydd wedi treulio'n rhannol, cofiwch y canlynol:-

Gwiriwch y marciau ar ochrau'r teiar

Rhaid bod pob teiar sydd wedi'i dreulio'n rhannol arddangos y geiriau "Part Worn" mewn llythrennau o leiaf 4mm o uchder ger y marc cymeradwyaeth.



Rhaid bod y teiar yn dangos yr holl farciau priodol ar gyfer y math a'r dyluniad penodol hwn o deiar, er enghraifft y raddfa cyflymder a'r mynegrif llwyth, oherwydd cafodd y marciau hyn eu mowldio ar y teiar neu i mewn i'r teiar pan gafodd ei gynhyrchu.

Atgyweirio pynjars a difrod

Rhaid bod unrhyw atgyweiriadau i'r teiar yn cwrdd â'r Safon Brydeinig briodol. Ni ddylai unrhyw rwygiadau i du allan y teiar sy'n ddigon dwfn i gyrraedd y gorden fod yn fwy na 25mm (1 modfedd) o hyd neu 10% o hyd y rhan honno o'r teiar, pa un bynnag sydd fwyaf.

Ni ddylai'r teiar gynnwys unrhyw lymphiau, chwyddau na rhwygiadau mewnol NAC allanol a gafodd eu creu gan arwahanu neu fethiant rhannol o'r strwythur nac unrhyw gorden neu blyg sydd wedi dod i'r amlwg yn fewnol neu'n allanol.

Lleiafrif gofynnol ar gyfer dyfnder gwadn

Cofiwch fod gwadn eich teiars yn gwasgaru dŵr ar y ffordd er mwyn sicrhau bod y teiar yn gafael yn arwyneb y ffordd.

Er mwyn cael eu gwerthu'n gyfreithlon fel teiars sydd wedi'u treulio'n rhannol, rhaid iddynt gael dyfnder gwadn o 2mm o leiaf ar draws y gwadn cyfan, yn ogystal ag o amgylch y cylchedd cyfan. Cofiwch mai 1.6mm yw'r terfyn cyfreithiol ar gyfer gwadn ar draws y gwadn cyfan.

Prynu ceir oddi wrth werthwyr E-bay

Mae rhai pobl yn mwynhau edrych ar hysbysebion E-bay, fel arfer oherwydd chwilfrydedd ac yn aml wrth chwilio am fargeinion!

Fodd bynnag, mae ochr negyddol i brynu oddi wrth werthwyr E-bay, yn enwedig pan rydych yn chwilio am eitemau drutach, fel ceir. Mae rhai gwerthwyr eisiau eich twyllo chi tra bod eraill eisiau gwerthu car i chi na ddylid ei yrru ar y ffordd fawr.

Os edrychwch ar yr enghraifft isod, mae amryw o arwyddion cyfarwydd a ddylai eich rhybuddio i osgoi'r gwerthwr.

Mae hysbyseb am gar yn ymddangos ar E-bay ac mae'r rhestrriad yn ymddangos fel hysbyseb am £1,000. Mae'r darpar brynwr yn edrych ar yr hysbyseb ac yn ystyried prynu'r car, cyn anfon neges e-bost at y gwerthwr yn gofyn am fwy o fanylion.

Y manylyn pwysicaf yma yw bod yr eitem yn edrych yn ddeniadol ond nad yw holl fanylion y cerbyd wedi cael eu datgelu, felly maen nhw wedi denu darpar brynwr i gysylltu â nhw er mwyn gofyn am fanylion pellach.

Fel arfer, mae'r gwerthwr yn datgan ei fod eisiau gwerthu'r cerbyd yn gyflym ac y byddai'n derbyn cynnig is na'r pris sy'n cael ei ddangos. Wedyn, bydd y gwerthwr yn gofyn i'r darpar brynwr gwblhau'r fargen heb fynd trwy E-bay. Mae'n bosibl y bydd y gwerthwr yn gofyn i'r prynwr dalu'r arian yn uniongyrchol i mewn i'w gyfrif, trwy drosglwyddiad banc. Fodd bynnag, wedi i'r prynwr drosglwyddo'r arian, mae perygl na fyddant yn clywed oddi wrth y gwerthwr eto, ac mewn achosion o'r fath – RYDYCH CHI WEDI CAEL EICH TWYLLO. Fel arall, mae'n bosibl y bydd y gwerthwr yn trefnu cyfarfod mewn lle ar hap, er enghraifft cilfan neu ochr ffordd, lle bydd disgwyl i'r prynwr dalu ag arian parod.

Nid yw'r gwasanaeth safonau masnach eisiau gweld prynwyr yn cael eu twyllo fel hyn; er bod hynny'n beth hawdd i'w wneud, yn enwedig pan y mae'r gwerthwr yn ymddangos yn unigolyn rhesymol sy'n cynnig cwrdd â chi hanner ffordd. Mae'n bosibl y byddant yn gostwng y pris neu'n darparu manylion sy'n gwneud iddi ymddangos fel petaech yn cael bargen, ond triciau yw'r rhain er mwyn sicrhau eich bod yn prynu oddi wrthynt.

Diogelu eich hun:

- Cynhaliwch wiriad ar y we ar yr eitem, y gwerthwr ac unrhyw fanylion eraill sy'n hawlio'ch sylw yn yr hysbyseb. Mae llawer o ddefnyddwyr E-bay yn gwneud hyn er mwyn gwirio gwerth eitemau yn ogystal â chynnal gwiriadau pellach mewn perthynas â'r gwerthwr.
- Darllenwch y daflen cyngor 'Ystyried prynu car ail-law'.

- Peidiwch â chytuno i dalu am yr eitem y tu allan i safle'r arwerthiant neu PayPal. Os oes rhywbeth yn mynd o'i le, ni allan nhw roi unrhyw gymorth na chefnogaeth i chi.
- Chwiliwch am geisiadau i gyfathrebu'n uniongyrchol gyda chyfeiriad e-bost yn hytrach na thrwy E-bay. Gall hyn awgrymu bod y gwerthwr yn ceisio masnachu y tu allan i wefan E-bay – UNWAITH ETO, RYDYCH MEWN PERYGL O GOLLI EU DIOGELWCH.
- Ceisiwch osgoi defnyddio Western Union neu ddulliau trosglwyddo arian uniongyrchol (anolrheiniadwy) eraill.
- Prisiau isel – os yw'r pris yn rhy dda i fod yn wir . . . mae'n debyg ei fod fel arfer.
- Chwiliwch am yr un eitem(au) ar werth am brisiau hollol wahanol mewn lleoliadau gwahanol.
- Ceisiwch osgoi ceisiadau am daliadau y tu allan i PayPal. PEIDIWCH Â THALU AG ARIAN PAROD UNRHYW BRYD! Nid oes modd olrhain trosglwyddiadau o'r fath.
- Ceisiwch osgoi UNRHYW fasnachwr sy'n gwrthod dangos y cerbyd (neu eitem arall) i chi neu sy'n defnyddio esgusodion fel "nid ydw i yn y wlad ar hyn o bryd" sy'n eich atal chi rhag gweld y cerbyd.
- PEIDIWCH â chytuno i gwrdd mewn cilfan neu unrhyw le ar hap arall. Dylech gwrdd yng nghyfeiriad y masnachwr oherwydd os aiff unrhyw beth o'i le, byddwch yn gallu dychwelyd at y lleoliad. Os bydd y masnachwr yn gwrthod cwrdd â chi yn ei gartref neu yn ei gyfeiriad masnachu, neu os yw e'n darparu esgusodion, peidiwch â chytuno i gwrdd ag e.
- Peidiwch â theithio pellteroedd maith i brynu cerbyd. Unwaith eto, mae hynny'n gwneud hi'n anoddach i ddatrys unrhyw broblemau, os aiff rhywbeth o'i le.

Fel prynwr, BYDDWCH YN WYLIADWRUS ar bob achlysur!



Prynu Car ar Ochr y Ffordd

Mae gweld ceir wedi'u parcio mewn cilfannau neu feysydd parcio gydag arwyddion 'ar werth' ynddynt yn olygfa gyffredin y dyddiau hyn. Bydd rhai o'r cerbydau hyn wedi'u gosod yno gan unigolion preifat sydd wirioneddol yn ceisio gwerthu eu ceir ac osgoi costau hysbysebu, ond yn weddol aml, gwerthwyr diegwyddor ydynt yn ceisio twyllo prynwyr a gwneud iddynt gredu eu bod nhw'n prynu oddi wrth unigolyn preifat, sydd yn ei dro yn cyfyngu ar hawliau'r prynwr.

Y rheswm mae masnachwr eisiau ymddangos fel gwerthwr preifat yw bod gan y prynwr hawliau pan maen nhw'n prynu nwyddau oddi wrth fasnachwr. Os yw'r nwyddau yn ddiffygiol, gall y prynwr hawlio yn erbyn y masnachwr, ond pan fydd prynwr yn prynu nwyddau oddi wrth werthwr preifat, yn ôl y gyfraith, os yw'r nwyddau yn ddiffygiol, bai'r prynwr yw hynny am fod yn esgeulus, ac felly mae'n amlwg pam y byddai rhai masnachwyr yn dymuno cymryd mantais o'r sefyllfa. Os bydd y prynwr yn llwyddo i gysylltu â nhw i ddweud bod y car yn ddiffygiol, byddant yn ymddiheuro a dweud nad oes unrhyw beth y gallant wneud am y peth.

Ein cyngor ni yw osgoi prynu ceir sy'n cael eu gadael ar ochr y ffordd fel hyn. Ond os ydych yn benderfynol o gymryd mantais o un o'r 'bargainion' hyn, dilynwch y cyngor isod mewn ymgais i osgoi problemau maes o law. Pan fyddwch yn cysylltu â'r gwerthwr, gofynnwch am gael cwrdd ag e yn ei gartref. Os yw'r gwerthwr yn gwrthod eich cais neu'n rhoi rhesymau pam nad ydyw eisiau i chi ymweld â'i gartref, dylai hynny godi amheuaeth ar unwaith. Bydd arwydd 'ar werth' gwerthwr preifat go iawn yn cael ei arddangos ar y car pan mae'n cael ei barcio tu allan i'w gartref, ac felly mae'n fwy tebygol y bydd pobl yn cnocio ar ei ddrws i ofyn am y car. Os nad yw'r gwerthwr eisiau datgelu ei gyfeiriad wrthy, mae'n debygol ei fod yn ceisio cuddio rhywbeth.

Yn ail, pan fyddwch yn cysylltu â'r gwerthwr, gofynnwch am y rhif Cyfeirnod o ddogfen cofrestru'r cerbyd. Bydd y rhif hwn yn eich galluogi chi i ymweld â Directgov.com er mwyn cynnal gwiriadau penodol ar y cerbyd, er enghraifft faint o filltiroedd roedd y car wedi'u gwneud yn ôl y prawf MOT diwethaf, a fydd yn ei dro yn eich galluogi chi i weld os yw'r gwerthwr wedi amharu â chloc milltiroedd y car. Os bydd y gwerthwr yn dweud nad yw'r rhif wrth law, gofynnwch iddo eich ffonio'n ôl gyda'r rhif. Os bydd y gwerthwr yn osgoi datgelu'r wybodaeth hon i chi, mae'n cuddio rhywbeth ac felly peidiwch â delio ag e.

Yn olaf, os byddwch yn prynu car oddi ar ochr y ffordd, sicrhewch fod rhywun yn mynd gyda chi sy'n gwybod am geir er mwyn iddo/iddi allu archwilio'r cerbyd. Bydd hyn yn eich helpu chi i osgoi problemau maes o law. Peidiwch â chytuno i gwrdd â'r gwerthwr pan mae hi'n dywyll; mae angen i chi allu archwilio'r car yn drylwyr.

Cofiwch, nid yw'r ceisiadau uchod yn rhai afresymol, ac os yw'r gwerthwr yn eu gwrthod, ein cyngor ni yw prynu eich car o ryw ffynhonnell arall. Mae digon o fasnachwyr ceir sy'n masnachu o leoliadau swyddogol heb geisio cuddio'r ffaith eu bod nhw'n rhan o'r diwydiant. Gall Safonau Masnach eich cynorthwyo os byddwch yn cael trafferthion gyda cheir sydd wedi'u prynu oddi wrth un o'r masnachwyr hyn. Yn aml iawn, nid oes modd dod o hyd i'r unigolyn sydd wedi gwerthu'r car i chi ar ochr y ffordd ar ôl i chi taro'r fargen, ac ni allwn wneud llawer i'ch cynorthwyo chi os nad oes modd dod o hyd i'r gwerthwr.

Ydych chi'n ystyried prynu car ail law?

Mae newid clochau ceir yn dal i fod yn broblem, ond erbyn hyn mae'n hawdd iawn gwirio faint o filltiroedd y mae ceir wedi'u gwneud. I wirio hanes profion MOT neu filltiroedd unrhyw gerbyd, edrych ar wefan www.gov.uk/check-mot-history-vehicle. Y cyfan sydd ei angen arnoch yw rhif cofrestru'r ceryd a naill ai rhif prawf MOT y cerbyd neu'r cyfeirnod a welir ar dystysgrif gofrestru V5C (llyfr cofnodion V5) y cerbyd. Dilynwch y cyfarwyddiadau i weld hanes MOT y cerbyd, mae'r cofnodion yn dechrau o 2005. Mae'r hanes yn cynnwys nifer y milltiroedd ar gloc y cerbyd ym mhob prawf MOT.

Os ydych yn prynu'n breifat neu'n teithio'n bell i brynu car dylech bob amser fynnu cael y wybodaeth hon cyn mynd i brynu'r cerbyd neu os oes gennych ffon ddeallus, gofaluwch fod y dogfennau ar gael wrth i chi archwilio'r car. Os na fydd y gwerthwr yn fodlon rhoi'r wybodaeth hon i chi, byddem yn eich cyngorhori i beidio a phrynu'r cerbyd.